# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

**2018 dccc 5**

*Gorfodi*

## 18 Rhwystro etc. swyddogion

(1) Mae person sy’n rhwystro’n fwriadol swyddog awdurdodedig i awdurdod lleol sy’n arfer swyddogaethau o dan adrannau 13 i 17 yn cyflawni trosedd.

(2) Mae unrhyw berson sydd, heb achos rhesymol, yn methu—

(a) â darparu i swyddog awdurdodedig gyfleusterau y mae’n rhesymol i’r swyddog awdurdodedig ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu darparu at ddiben gofyniad o dan adran 17(1), neu

(b) â chydymffurfio â gofyniad o dan adran 17(1)(b) neu (d),

yn cyflawni trosedd.

(3) Mae person sy’n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw’n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(4) Mae’r adran hon yn ddarostyngedig i adran 17(6).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 18 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I2** A. 18 mewn grym ar 2.3.2020 gan O.S. 2020/175, **rhl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, Adran 18.